

# BUCHEDD BANGOR



CYLCHGRAWN  
CADEIRLAN  
DEINIOL SANT  
YM MANGOR

THE MAGAZINE  
OF SAINT  
DEINIOL'S  
CATHEDRAL  
IN BANGOR



Cadeirlan  
Deiniol Sant  
*ym Mangor*

Saint Deiniol's  
Cathedral  
*in Bangor*



DUW GYDA NI  
O SUL YR ADFENT,  
DROS Y NADOLIG,  
TAN WÝL FAIR Y  
CANHWYLLAU  
GOD WITH US  
FROM ADVENT  
SUNDAY,  
OVER CHRISTMAS, &  
UP TO CANDLEMAS

28.11.2021-30.1.2022

RHAD AC AM DDIM  
EWCH Â CHOPÍAU I'W RHANNU  
FREE  
PLEASE TAKE COPIES TO SHARE

# CROESO WELCOME

*Gwylion*

**Croeso i'r rhifyn cyntaf hwn o Buchedd Bangor, cylchgrawn newydd Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.**

"Buchedd" yw'r enw a roddir ar gofnod o fywyd rhywun, a cheir bucheddau'r saint o'r Canol Oesoedd sy'n adrodd hanes rhai o brif seintiau Celtaidd Cymru.

Mae **Buchedd Bangor**, felly, yn rhyw fath o gofnod o fywyd ein cymuned ni o gyfeillion Crist ym Mangor yr awr hon. Fe geir yma gymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd.

Y bwriad yw cyhoeddi pum rhifyn o **Buchedd Bangor** dros y flwyddyn, a phob un yn cyd-fynd â chyfnod penodol ym mywyd addoli'r Gadeirlan, ac â chyfres o bregethau ar fore Sul i'n tywys drwy'r cyfnod hwnnw.


Mae'r rhifyn cyntaf yn gydymaith i'r cyfnod o Sul yr Adfent (28 Tachwedd) tan ddiwedd tymor y Nadolig ar Wyl Fair y Canhwyllau (30 Ionawr).

Dyma gyfnod o baratoi dros wythnosau'r Adfent, ac o ddathlu dros wythnosau'r Nadolig. "*Duw gyda ni*" yw'r ymadrodd fydd ar ein gennau gydol y cyfnod hwn, wrth inni ganolbwytio ar Ymgawloliad Duw yng Nghrist lesu, ac wrth inni weddio am ddyfodiad beunyddiol Crist yn ein calonnau.

Diolch i chi am fod yn rhan o'n cymuned o ffydd, gobaith a chariad yn y Gadeirlan a Bro Deiniol. Rwy'n edrych mlaen at y paratoi a'r dathlu dros yr wythnosau nesaf. Dyma'ch gwahodd i fod yn rhan lawn o ddefodau a dathliadau'r Gadeirlan, ac i wahodd eraill i ymuno gyda ni wrth inni ganfod a ymhyfrydu yn "**Nuw gyda ni**" yr Adfent a'r Dolig hwn.



Lluniau clawr | Cover images  
y Parchg | the Revd Hana Helvadjian



## Welcome to this first issue of **Buchedd Bangor**, the new magazine of Saint Deiniol's Cathedral in Bangor.

"Buchedd" is the old Welsh name given to a record of someone's life, and "bucheddau'r saint" (the "lives of the saints") are a medieval corpus of works telling the story of the Age of the Saints in the sixth and seventh centuries.

**Buchedd Bangor** is, therefore, a sort of record of the life of our community of Christ's companions here in Bangor at this time. It offers a mixture of devotional material and practical knowledge about our life together.

The intention is to publish five issues of **Buchedd Bangor** over the course of the year, each coinciding with a specific period in the Cathedral's worshipping life, and complementing a series of Sunday morning sermons that will guide us through each period.

The first edition is a companion to the period from Advent Sunday (28 November) until the end of Christmastide on Candlemas Day (30 January).

This is a time of preparation over the weeks of Advent, and of celebration during the weeks of Christmastide.

"**God with us**" is the phrase that will be on our lips throughout this time, as we meditate on God's Incarnation in Jesus Christ, and as we pray for Christ's daily manifestation in our hearts.

Thank you for being part of our community of faith, hope and love at Cathedral and in Bro Deiniol. I'm looking forward to the preparation and celebration over the coming weeks. This is your invitation to be fully involved in the rites and celebrations of the Cathedral, and to invite others to join us as we discover and delight in "**God with us**" this Advent and Christmastide.

Oddi wrth yr  
**Is-Ddeon**  
**From the**  
**Sub-Dean**  
Canon Siôn  
Rhys Evans



# PANED HEFO JOE COOPER

**Ymhob rhifyn o Buchedd Bangor, byddwn yn cwrdd ag aelod o gymuned y Gadeirlan. Dechreuwn gyda'n Cyfarwyddwr Cerdd newydd, Joe Cooper.**

**Yn holi mae Naomi Wood, ein Cyfarwyddwr Cyfathrebu esgobaethol a'n Gweinidog Teulu yn y Gadeirlan ac ym Mro Deiniol.**



Naomi Wood

**Dwedwch ychydig wrtha'i am y ffordd wnaethoch chi ddechrau ymneud â cherddoriaeth eglwysig.**

Roedden ni'n mynd i'r eglwys leol fel teulu pan oeddwn yn ifanc iawn. Pan oeddwn tua saith oed digwyddodd fy Nhad gerdded i mewn i'r eglwys yng nghanol dinas Wolverhampton, lle roedden ni'n byw. Roedden nhw'n hysbysebu am gantorian ar gyfer y côr a gofynnodd a fyddwn innau'n hoffi rhoi cynnig arni. Meddyliais, "Mmmm, na." Ond doeddwn i ddim mae'n debyg yn gwneud llawer o weithgareddau tu hwnt i oriau ysgol ar y pryd felly er mwyn ei blesio mi ymunais.

**Felly oedd hi'n ddilyniant naturiol i'r fan lle rydych heddiw ynto oedd na fwy o stori na hynny?**

Dydw i ddim yn siŵr ai hyn oeddwn i am ei wneud pan oeddwn i'n ifanc iawn. Dw i'n meddwl mod i â diddordeb mewn seryddiaeth. Byddwn yn mynd i gymdeithasau seryddol o hyd. Roeddwn yn gallu nofio'n eitha' hefyd, ond wrth i'r ymrwymiadau gyda'r côr gynyddu roedd yn dod yn anoddach canfod amser ar gyfer pethau eraill.

**Gall yr ymrwymiadau hynny fod yn eitha' trwm!**

Yn wir, ond mae'n debyg i mi ddewis gwneud y gofynion yn drwm. Roeddwn yn ymarfer ar gyfer y côr ond hefyd yn dilyn llawer o wersi offerynnol hefyd. Decreuais dderbyn gwersi piano gan y côr-feistr yn eitha' cynnar a dysgais

# GETTING TO KNOW JOE COOPER

In each edition of **Buchedd Bangor**, we'll be meeting a member of the Cathedral community. We start with our new Director of Music, Joe Cooper.

Asking the questions is Naomi Wood, our diocesan Director of Communications and our Family Minister at the Cathedral and in Bro Deiniol.

**Tell me a little of how you got involved with church music.**

We went to the local church as a family when I was very young. When I was about 7 my Dad happened to walk into the city centre church in Wolverhampton where we lived. They were advertising for choristers and he asked if I wanted to give it a go. I thought, "Mmmm, no." But, I probably wasn't doing many out-of-school activities at that age and so to please him I went along.

**So was it a natural progression to where you are today or was there more to it?**

I don't know if it is what I wanted to do when I was very young. I think I wanted to be in astronomy. I always used to go to astronomical societies. I was quite good at swimming aswell but as the routine of choir took over it got more difficult to fit things in.

**That routine can be quite intense!**

Yes, but I suppose I chose to make it intense. I was doing choir and then all the instrumental lessons as well. I started taking piano lessons quite early on from the choir master and learnt other instruments too. I learnt piano, organ, singing, trombone and did all the examinations and the medals and graded exams. It was when I was 16 that I decided to do some directing. I'd always found social interaction quite challenging but I realised I was quite good at leading

ganu offerynnau eraill hefyd. Dysgais ganu'r piano, yr organ a'r trombôn ynghyd â dysgu canu a sefais yr holl arholiadau graddedig ac ennill medalau. Pan oeddwn yn un ar bymtheg oed penderfynais wneud rhywfaint o gyfarwyddo. Roedd rhungweithio cymdeithasol wedi bod yn eitha' heriol i mi erioed, ond mi wnes i sylweddoli mod i'n reit dda am arwain a mod i'n eitha' mwynhau hynny. Ers hynny rwylf wedi gweithio yn Penn (yn rhan ddeheuol Wolverhampton) ac yn Solihull. Oni bai am gôr yr eglwys lle ces i fy magu fyddwn i ddim wedi derbyn yr addysg gerddorol a gefais. Mae'n bwysig i mi bod y cyfle ar gael i bawb ac nid wedi ei gyfyngu i gapel ysgol breifat neu rywbeth fel'na.

### **Beth am gerddoriaeth a ffydd felly? Sut maen nhw'n cydblethu i chi?**

Mae cerddoriaeth o fewn y litwrgi yn fy ngalluogi i ganfod adegau pan fedraf addoli oherwydd fy mod yn deall strwythur pendant. Dw i'n credu bod bodau dynol angen hynny. Pobol ydyn ni sy'n byw mewn byd o ofod ac amser ac mae arnon ni angen rhywbeth i'n helpu. Os edrychwr chi ar wareiddiadau'r hen fyd roedd ganddyn nhw eu seremonïau, boed hynny ar gyfer addoli ynte er hybu lles y gymuned.

Wrth ganu mewn côr rydych yn ymdrin â llawer o ddarnau o'r Beibl heb i chi sylweddoli hynny. Os ydych yn canu mewn côr yn rheolaidd a chithau'n saith mlwydd oed ac yn dod i gysylltiad â'r holl destunau Ysgrythurol hyn, efallai na fyddwch chi'n meddwl bryd hynny am eich perthynas â'r dwyfol ond erbyn eich bod yn un deg chwech neu'n un deg saith bydd gennych adnoddau digonol i allu trafod yn wybodus. Bydd cyfle i chi wneud dewis.

Mae hefyd gyfle i ymwneud â rhywbeth ar lefel emosiynol yn hytrach na thrwy ddulliau rheswm. Rydyn ni'n mynd i'r ysgol ac i'r gwaith ac mae'n rhaid i ni ysgrifennu pethau a'u deall yn syth ond os gallwch agosáu at Dduw drwy ddrysau dirgelwch, boed hynny drwy addoliad neu gerddoriaeth, mae'n gwneud i'r profiad deimlo'n wahanol iawn.

### **Beth ynglŷn â cherddoriaeth gorawl sy'n eich ysbrydoli? Beth ddaeth â chi i'r fan lle rydych chi heddiw?**

Mae'n braff cydweithio ag eraill i greu rhywbeth sy'n fwy na chi eich hun. Mae yna rywbeth personol iawn am gerddoriaeth gorawl. Mae eich llais y tu mewn i chi ac rydych yn cysylltu â ffiseg y byd yma ond allwch chi ond profi gwir harddwch y ffiseg yna gyda phobol eraill. Ar eich pen eich hun allwch chi ond canu llinell unsain ond gyda phawb arall mi allwch chi wneud i'r byd yma gyseinio allan ohonoch chi eich hun.



Joe Cooper

things and I quite enjoyed it. I've since worked in Penn (in south Wolverhampton) and in Solihull. Had it not been for the church choir where I grew up I wouldn't have the musical education I have now. It's important to me that the opportunity is available to everyone and not limited to a private school chapel or something like that.

### **Music and faith then. How do they fit together for you?**

Music within liturgy allows me to find times to be able to worship because I understand a set structure. I think human beings need that. We are a people who exist in a world of space and time and we need something to help. If you look at ancient civilisations they had their ceremonies whether it was for worship or community wellbeing.

---

THERE'S AN OPPORTUNITY  
TO ENGAGE THROUGH AN  
EMOTIONAL CONNECTION AS  
OPPOSED TO A CONNECTION  
OF REASON

---

Singing in a choir exposes you to a lot of text from the Bible without realising it. If you're singing in a choir on a regular basis, you're 7 years old and you're coming into contact with all this text, you may not think then about your relationship with the Divine but by the time you're 16 or 17 you have enough resource to have a real conversation about it. There's an opportunity to come to a choice.

There's also an opportunity to engage with something through an emotional connection as opposed to a connection of reason. We go to school and work and have to write things down and understand them immediately whereas if you can come to God through the doors of mystery whether through worship or music it makes it feel very different.

## **Pa un ydi'ch hoff fisgeden?**

Dydw i ddim yn meddwl bod fy nghenhedlaeth i'n bwyta bisgedi gymaint â hynny. Mi roeddwn i'n arfer hoffi bisgedi Viscount.

NID RHYW YCHWANEGIAD  
DEWISOL YDYW  
CERDDORIAETH PAN FO  
POBOL AR GAEЛ I'W GYNNIG

## **Beth mae cael eich sefydlu fel Cyfarwyddwr Cerdd yn ei olygu i chi?**

Mae'n golygu bod gen i gyfrifoldeb ar gyfer y Gadeirlan a'r Esgobaeth i sicrhau y gellir cyflawni'r weinidogaeth gerddorol hon. Mae fy sefydlu'n golygu bod y Gadeirlan yn cydnabod pwysigrwydd cerddoriaeth ac nad rhw ychwanegiad dewisol ydyw pan fo pobol ar gael i'w gynnig.

Mae llawer o'r gweithgareddau yn fy mywyd wedi eu hadeiladu o gwmpas hyn. Gall fod yn beryglus weithiau y gall fy holl ffydd ynof fy hun a'm gwerth dyfu i fod ynghlwm â'r swydd.

Wn i ddim a deimlais alwad gan Dduw pan oeddwn yn iau ond dw i'n sicr yn teimlo mai hyn y gelwir fi i'w wneud.

**[B]**

## **What is it that inspires you about choral music? What is it that's brought you to here, now?**

It's nice to be able to come together to create something that's bigger than yourself. There's something very personal about choral music. Your voice is inside of you and you connect to the physics of this world but you can only enter the real beauty of that physics with other people. By yourself you can only sing a unison line but with everyone else you can make this world resonate from inside yourself.

## **What's your favourite biscuit?**

I don't think my generation has biscuits that much. I used to like the Viscount biscuits.

## **What does being installed as Director of Music mean for you?**

It means that I have a responsibility for the Cathedral and the Diocese to ensure that this ministry of music can be delivered. Being installed means the Cathedral sees the importance of music and it's not just an optional extra when people are available.

Many of the activities in my life are built around this. It can be dangerous sometimes that my entire self-belief and worth can end up being attached to the job.

I don't know if I felt a calling by God when I was younger but I certainly feel it's what I am called to do. [B]



# Y DAITH ADRA

**Pregethwyd y bregeth hon gan yr Is-Ddeon yn y Gosber ar Gân a dathliad o weinidogaethau newydd yn y Gadeirlan ar 26 Medi 2021.**

**Y llithoedd oedd Eseia 62:1-5, 10-12 a Ioan 4:1-30, 39-42.**



Siôn Rhys Evans

**OHERWYDD RHAI  
FELLY Y MAE'R  
TAD YN EU CEISIO  
I'W ADDOLI EF.**

Nos Sadwrn ydi hi, ychydig wythnosau yn ôl. Mae'n eitha' hwyr. Dw i ar fy ffordd yn ôl o Gaer i Fangor, a dw i'n eistedd ar y trêb sydd wrth y platfform yng ngorsaf Caer.

Mae rhyw broblem wedi codi ar y lein yn y Fflint, felly mae popeth wedi dod i stop.

Mae'r cerbyd yn dechrau llenwi â hogiau sydd wedi bod yn gwyllo gêm bêl-droed rywle.

Yn anarferol i mi, dydw i ddim yn gwisgo coler gron. Rwy'n eistedd yno, yn ddigon diamynedd, yn ceisio gorffen fy mhregeth ar gyfer y bore drannoeth ar fy ngliniadur.

Mae boi mawr, ifanc yn eistedd drws nesa' i mi; i ddechrau, mae'n sgwrsio'n frwd â'i ffrindiau.

Yna mae'n troi ata' i.

"Ti'n edrach fel boi clyfar. Pryd fyddwn ni'n cyrraedd Bangor 'ta?"

Rwy'n amcangyfrif faint o'r gloch fyddwn ni yno orau a fedra' i yn sgil yr oedi.

Fo: "Pwy ti'n syportio ta?"

Fi: "Mewn pêl-droed? Wel, Lerpwl, pan

# A JOURNEY HOME

The Sub-Dean preached this sermon at the Evensong and celebration of new ministries at the Cathedral on 26 September 2021.

The lessons were Isaiah 62:1-5, 10-12 and John 4:1-30, 39-42.

FOR THE FATHER  
SEEKS SUCH  
AS THESE TO  
WORSHIP HIM.

It's a Saturday night a few weeks ago. It's quite late. I'm on my way back from Chester to Bangor, and I'm sitting on the train at the platform at Chester Station.

There's been some sort of incident on the line at Flint, so everything's delayed.

The carriage starts filling up with guys who've been watching the football somewhere.

Unusually for me, I'm not in a dog collar. I'm sat there, rather grumpily, trying to finish my sermon for the following morning on my laptop.

A large, young guy sits next to me; initially he's in a boisterous conversation with his friends.

Then he turns to me.

"You look like a clever guy. What time we getting to Bangor then?"

I estimate the time best I can based on the delay.

Him: "Who do you support then?"

Me: "Football? Well, Liverpool, when I was growing up; but that was kind of because I liked their away kit one

oeddwn i'n ifanc; ond roedd hynny rywsut oherwydd mod i'n licio eu cit chwarae oddi cartref un flwyddyn."

Fo: "Ond ti ddim yn eu syportio ddim mwy, na?" (Mae'n gwisgo crys Manchester City).

Fi: "Na. Dw i ddim yn un mawr am bêl-droed, wir."

Fo: "Be' ti'n ei neud felly, 'ta? Twrna?"

Fi: "Na."

Fo: "Darlithydd coleg?"

Fi: "Na. Ym. Fel mae'n digwydd, ficar ydw i."

(Mae dweud 'ficar' yn haws na dim byd arall. Dyn a wyr beth fyddai wedi ei feddwl oedd Is Ddeon).

Fo: "Ficar! Na! Hogia, ficar ydi o! Lle ti'n ficera ta?"

Fi: "Fel mae'n digwydd, dw i ar fin cychwyn yn y Gadeirlan."

Fo: "Cadeirlan? Lle mae fan'no?"

Fi: "Ti'n gwbod, ar y Stryd Fawr."

Fo: "O, y lle mawr 'na, wrth ymyl y Castle?"

Fi: "Ia. Ia, y lle mawr wrth y Castle. Tyrd i'n gweld ni rywbryd."

Byddwn ni wedi gwneud reit dda, chi a fi, os, erbyn 2025, wrth i ni ddathlu mileniwm a hanner ers i Deiniol gyrraedd yr union le hwn, cyraedd fyma, a sefydlu ei gymuned yn y lle yma, ac adeiladu ei fangor o goed cyl yma... byddwn ni wedi gwneud reit dda, chi a fi, os, erbyn 2025, y bydd y dyn ifanc yna'n cyfeirio at dafarn y Castell fel "y dafarn 'na wrth ymyl y Gadeirlan".

## OHERWYDD RHAI FELLY Y MAE'R TAD YN EU CEISIO.

Ond pam ddylen ni hidio p'rūn ai ydi'r dyn ifanc yna'n gallu dweud ble mae'r lle hwn ai peidio? Pam ddylen ni fod am i'r lle hwn fod ar fap ei fywyd rywsut? Pam ddylen ni fod yn dymuno i ryw ran o'i galon fod yma?

Rwy'n cael hunllefau yng Nghymru geiriau lesu wrth y wraig ger y ffynnon. Dyma'r ddau ohonynt yno: fo'n Jwdead, yr oedd ei olyniaeth yn datgan mai yn ffurfioldeb dwys y Deml yn Jerwsalem y digwyddai gwir addoliad; hithau'n Samariad, a'i phobl yn addoli yn yr awyr agored, ar y tir, ar gopa'r mynydd. Ac wrth ei bobl ei hun a'i phobl hithau, meddai lesu, "mae gennych chithau eich ffyrdd chi a ninnau ein ffyrdd ni; ond rhagbaratoadau ydynt i gyd, pethau elfennol, dawnsio yn y cysgodion. Ond y mae amser yn dod, yn wir

year."

Him: "But you don't support them any more, no?" (He's wearing a Manchester City shirt).

Me: "No. I'm not a big football person, really."

"What you do then? Lawyer?"

"No."

"Uni Lecturer."

"No. Um. Actually, I'm a vicar."

(Vicar's easier than anything else. Goodness knows what he'd have made of Sub-Dean).

"Vicar! No! Guys, he's a vicar! Where you vicar then?"

Me: "Actually, I'm about to start at the Cathedral."

Him: "Cathedral? Where's that?"

"You know, on the High Street."

"Oh, that big place, by The Castle pub?"

"Yeah. Yeah, the big place by the Castle. Come see us sometime."

We'll have done well, you and me, come 2025, and we celebrate a millennium and a half since Deiniol first arrived here, and established his community here, and built his hazel fence here... we'll have done well, you and me, if by 2025 that young man describes the Castle as "that pub by the Cathedral."

## FOR THE FATHER SEEKS SUCH AS THESE.

But why should we care that my young man can locate this place; why should we want his life to be orientated in some way around this place? Why should we want part of his heart to be here?

I have nightmares about Jesus's words to the woman by the well. Here the two of them are: him a Judean, whose lineage held that true worship took place amid the awesome formality of the Temple in Jerusalem; her a Samaritan, her people worshipping outdoors, on the land, on the mountain-top. And to his own people and to hers, Jesus says, "you have your ways; we have ours; but they are all preparatory, elementary, dancing in the shadows. The hour is coming, and is now here, when the true worshippers will worship the Father in spirit and truth, for the Father seeks such as these to worship him."

y mae yma eisoes, pan fydd y gwir addolwyr yn addoli'r Tad mewn ysbryd a gwirionedd, oherwydd rhai felly y mae'r Tad yn eu ceisio i fod yn addolwyr iddo."

Mae'n wers galed: Y pethau crefyddol yma rydych yn glynu wrthynt, y traddodiadau hyn, y ffyrdd cysegredig, syber, yr adeiladau, y gwasanaethau, y Cadeirlannau – pethau ail orau ydynt, ffrwyth eich gwendid. Mae'r amser yn dod pan fydd y gwir addolwyr yn addoli'r Tad mewn ysbryd a gwirionedd yn unig.

Mae'n wers galed. Mae'n ein hatgoffa nad ein ffyrdd ni yw ffyrdd Duw; neu, efallai, nad oes angen ein ffyrdd ni ar Dduw; nid oherwydd bod ein hangen ar Dduw y'n crëwyd ni. Rhodd ydi'r cyfan; ar drugaredd Duw rydym yn bod; ac mae bendith yn aros y tu hwnt i'n gafael heblaw am ras Duw.

## OHERWYDD RHAI FELLY Y MAE'R TAD YN EU CEISIO.

Ac eto, gwyddom ein bod yn cael ein hachub yn ein croen nid dim ond yn ein pennau. Mewn perthynas fyw ag eraill rydym i adwaen maddeuant, nid mewn damcaniaeth. Fe'n gwaredir, nid yn ein perffeithrwydd, ond yn ein gwendid.

Gwyddom hynny oherwydd bod lesu'n ei ddangos i ni. Nid yw lesu byth ar wahân i'w gorff. Ar ddechrau ein darlleniad heno, mae wedi blino – wedi blino'n gorfforol ar ôl teithio, ac yn emosiynol luddledig oherwydd eiddigedd a chlebran ei ddilynwyr. Mae'n sychedig: "Rho i mi beth i'w yfed" medd corff Duw. Mewn man arall yn Efengyl loan, mae'n wylo ar ôl marw ei gyfaill Lasarus. Pan mae'n cyfarfod y disgylion ar Ian y llyn ar ôl yr Atgyfodiad, mae'n eistedd i fwyta brecwast gyda nhw. Pan mae'r wraig sydd â gwaedlif yn dod ato i'w gyffwrdd, os ond ag ymyl ei fantell, nid yw'n dweud wrthi i fynd i addoli mewn ysbryd a gwirionedd. Mae'n trugarhau wrth ei chorff toredig, dolurus. Pan mae Eseia am ddisgrifio sut beth yw adnabod o fewn byd amser rywbeth o'r hyn yw Duw mewn tragwyddoldeb, mae'n dweud ei fod yn debyg i'r ffordd mae gŵr ifanc yn llawenhau dros ferch ifanc; ac os ydych yn meddwl nad ydi hynny'n rhywbeth corfforol yna rydych wedi anghofio sut beth ydi bod yn ifanc.

Rwyf am i'r dyn ifanc yna oedd ar y trêm o Gaer allu canfod y lle hwn, oherwydd y mae'r lle hwn, y lle materol hwn – yn bren, meini, metel, gwydr, llais, cân, iaith, sagrafen – mae'r pethau hynny yn y lle penodol hwn yn rhoi i ni gip o fewn byd amser ar Dduw yn nhragwyddoldeb ac ar Grist lachawdwr y byd.

It's a hard teaching: These religious things you cling to, these traditions, these sacred, pious ways, these buildings, these services, these Cathedrals – they're second best, the fruit of your weakness. The hour is coming when the true worshippers will worship the Father in spirit and in truth alone.

It's a hard teaching. A reminder that our ways are not God's ways; or, perhaps, that God does not require our ways; we were not created because God had need of us. It is all gift; we exist at God's mercy; and beatitude awaits, out of reach, without God's grace.

## FOR THE FATHER SEEKS SUCH AS THESE.

And yet, we know that we're saved in our skin, not in our heads. We know forgiveness in lived relationships, not in theory. We're redeemed, not in our perfection, but in our weakness.

We know this because Jesus shows us. Jesus is never not in his body – at the beginning of our reading this evening, he is tired – physically tired by his journey, emotionally fed up at the jealousy and gossip of his followers. He's thirsty; "give me a drink," says the body of God. Elsewhere in the Gospel, he weeps when his friend, Lazarus, dies; when he meets the disciples by the lake after his Resurrection, he sits down to eat breakfast with them. When the woman who has been bleeding comes to him, to touch him, the hem of his cloak, he does not tell her to go worship in spirit and in truth. He has mercy upon her broken body and its pain. When Isaiah wants to describe what it's like to know in time something of what God is in eternity, he says it's like the young man rejoicing over the young woman; and if you think that isn't physical, then you've forgotten what it's like to be young.

I want my young man from the train in Chester to be able to find this place, because this place, in its physicality – wood, stone, metal, glass, voice, song, language, sacrament – those things in this place give us a glimpse in time of God in eternity and of Christ the Saviour of the world.

## FOR THE FATHER SEEKS SUCH AS THESE.

# OHERWYDD RHAI FELLY Y MAE'R TAD YN EU CEISIO.

Mae Cadeirlan yn Gadeirlan oherwydd gwrthrych materol, sef sedd; mae'r fan hon yn Gadeirlan oherwydd bod Gorsedd yr Esgob yna. Neu efallai ei bod yn fwy cywir dweud bod Cadeirlan yn Gadeirlan oherwydd bod dynol ac oherwydd perthynas pobl â'i gilydd. Mae Cadeirlan yn Gadeirlan oherwydd mai dyma'r lle mae pobl Dduw yn y darn hwn o'r greadigaeth yn ymgynnnull, o gwmpas yr Esgob yn ei gadair, fel yr Eglwys, fel Corff Crist, mewn cydberthynas, mewn Cymundeb, â'u Hesgob ac â'i gilydd.

Mae'n drawiadol, mae'n bwysig ac mae'n wirionedd sy'n rhyddhau, ein bod yn ein diffinio'n hunain fel pobl Dduw yn y lle hwn, fel Corff Crist yn y lle hwn, nid ar sail yr hyn y credaf sy'n wir nac ar sail y rhinweddau y credaf rwyf yn meddu arnynt nac ar sail pa weithredoedd gwiw a gyflawnaf. Rydym yn ein diffinio'n hunain fel Corff Crist yn y lle hwn nid yn unol â dehongliad unigolyddol, haniaethol ac anghorfforol o'r Gair ond yn unol â'n perthynas â'r Esgob ac â'n gilydd, gan ymgynnnull o'i gwmpas yn y fangre faterol hon, fel y gwnaeth cenedlaethau lawer drwy'r oesoedd o'n blaenau.

# OHERWYDD RHAI FELLY Y MAE'R TAD YN EU CEISIO.

Yn nesaf at yr Esgob, bydd aelodau Cabidwl y Gadeirlan yn eistedd yn y Cwîr, nid yn wynebu tua'r blaen, ond yn wynebu ei gilydd. Ymgais yw hynny i ddarlunio yma'r hyn a fydd yn y nefoedd pan sylweddolwn ein cyflawn hunaniaeth, pan na fydd dagrâu rhagor yn gwmwl dros ein llygaid, pan na fyddwn bellach yn gweld mewn drych yn aneglur, ond yn hytrach yn gweld ein gilydd wyneb yn wyneb, fel yr ydym mewn difrif; a phryd hynny byddwn yn addoli mewn ysbryd a gwirionedd.

Daw adeg pan na fydd angen eglwysi arnom, nac esgobion, na sagrafennau, na hyd yn oed Is-Ddeoniaid petai'n dod i hynny; daw'r adeg pan fyddwn yn gweld ein gilydd wyneb yn wyneb ac yn addoli mewn ysbryd a gwirionedd, ac na fydd terfyn ar ein cyfranogiad yn y Duwdod. Ond yn y cyfamser, o fewn byd amser, yn nyffryn y dagrâu a'r dyheu, mae arnom angen pethau, a'r lle hwn, a'n gilydd. "Felly pan ddaeth y Samariaid hyn ato ef, gofynasant iddo aros gyda hwy," yn bersonol, mewn perthynas, a chlywsant drostynt eu hunain, a gwybod mai hwn yn wir oedd Ceidwad y Byd. [B]

A Cathedral is a Cathedral because of a physical thing, a seat; this place is a Cathedral because the Bishop's throne is here. Or, perhaps more accurately, a Cathedral is a Cathedral because of a person and because of relationships. A Cathedral is a Cathedral because it is the place where, around the seated Bishop, the people of God in this corner of creation gather as the Church, as the Body of Christ, in relationship, in Communion, with their Bishop and with one another.


It is striking, it is liberating, and it is important, that we define ourselves as the people of God in this place, as the Body of Christ in this place, not by what I believe to be true, or by what virtues I believe I possess, or by what worthy deeds I perform. We define ourselves as the Body of Christ in this place not by some individual, abstracted, disembodied understanding of the word, but because of our relationship with the Bishop and with one another, gathered around him in this physical place, as generations in time have done before us.

## FOR THE FATHER SEEKS SUCH AS THESE.

Next to the Bishop, members of the Cathedral Chapter sit in Quire, not facing forward, but facing one another. It's an attempt to enact here what will be, when in heaven, when we are fully ourselves, when there are tears no more to blur our vision, when we no longer see through a glass darkly, but when we will see one another face to face, as we truly are, and we will worship then in spirit and in truth.

The time will come when we will have no need of churches, or bishops, or sacraments, or even Sub-Deans for that matter; the time will come when we will see one another face to face and worship in spirit and in truth, and our participation in God will be without limit. But in the meantime, in history, in time, in this vale of hope and tears, we have need of things, of this place, and of one another. "So when the Samaritans came to him, they asked him to stay with them," in person, in relationship; and they heard for themselves, and knew that this was truly the Saviour of the world. **[B]**

# CLUST I LUC CYFRES NEWYDD



**Mae Esgobion a Chorff Llywodraethol yr Eglwys yngh Nghymru wedi ein gwahodd, yn ystod 2022, i ymgysylltu'n ddyfnach â geiriau'r Beibl. Un o'r ffyrdd y byddwn yn gwnaed hyn yn Nghadeirlan Deiniol Sant yw trwy bum erthygl yn Buchedd Bangor a fydd yn ein dwyn yn agosach at yr Efengyl yn ôl Sant Luc.**

Byddwn yn clywed darlleniadau o Luc yn ein Gosber ar Gân ar nosweithiau Sul, felly mae'n briodol canolbwntio ar Luc ar y tudalennau hyn.

Rydyn ni wrth ein bodd o gael ein tywys dros y pum rhifyn sydd i ddod o **Buchedd Bangor** gan y Parchg Luigi Gioia.

Diwinydd ac ymchwilydd ym Mhrifysgol Caergrawnt yw Luigi Gioia ac mae'n arfer ei weinidogaeth yn Eglwys Sant Paul, Knightsbridge yn Llundain. Mae ei lyfrau ar ysbrydolrwydd wedi'u cyfieithu i bum iaith. Roedd ei lyfr cyntaf ar weddi, *Say it to God*, yn Llyfr Grawys Archesgob Caergaint yn 2018. Enillodd ei lyfr diweddaraf ar ysbrydolrwydd Benedictaidd, *The Wisdom of St Benedict*, wobr Ysbrydolrwydd Cymdeithas y Cyfryngau Catholig yr UDA.

**Mae'r traethodau byr hyn ar Luc yn fenter ddeallusol sy'n dyfnhau ein dealltwriaeth. Ond mae'n hefyd yn offrwm ysbrydol. Gadewch inni gnoi cil ar eiriau Luigi, a myfyrio arnynt yn weddîgar, wrth inni yfed yn ddwfn o air sanctaidd Duw yn y Beibl.**

# LISTENING TO LUKE A NEW SERIES

**The Bishops and Governing Body of the Church in Wales have invited us, during 2022, to engage more deeply with the words of the Bible. One of the ways in which we will do this at Saint Deiniol's Cathedral is by five articles in **Buchedd Bangor** that will draw us closer to the Gospel according to Saint Luke.**

We will hear readings from Luke most Sunday evenings this year at Choral Evensong, so it is appropriate to focus on Luke in these pages.

We're delighted that our guide over the coming five editions of **Buchedd Bangor** is the Revd Luigi Gioia.

Luigi Gioia is a theologian and researcher at Cambridge University and exercises his ministry at St Paul's Church, Knightsbridge in London. His spirituality books have been translated into five languages. His first book on prayer, *Say it to God*, was the Archbishop of Canterbury's Lent Book in 2018; and his latest book on Benedictine spirituality, *The Wisdom of St Benedict*, was awarded the Spirituality prize by the Catholic Media Association in the USA.

These short essays on Luke are an intellectual enterprise, deepening our knowledge. But they are also a devotional, spiritual tool. Let us take time to digest Luigi's words, to reflect on them, and to use them as preparation for prayer, as we drink deeply from God's holy word in the Bible.

# 1. EIN HEISIAU NI



Luigi Gioia  
gan | by Rona Lane

P

## am ydym ni'n darllen o gwbl?

Mae'n rhywbeth sydd mor hanfodol ac yn rhan mor gyffredin o fywyd pob dydd pobl heddiw nes bod y cwestiwn yn swnio'n ddiangen. Nid pawb sy'n darllen llyfrau neu farroddiaeth, ond rydym i gyd â'n pennau yn y newyddion, yn archwilio dogfennau, dehongli cyfarwyddiadau, gwirio negeseuon, sganio ffrydiau a phostau. Rydym ni'n darllen er mwyn cael gwybodaeth, i gael ein diddanu ac weithiau, i chwilio am ysbrydoliaeth. Yn y pendraw, mae'r rheswm pam ein bod yn darllen yn amrywio yn ôl y math, neu, fe allwn ddweud, *genre* y testunau sy'n denu ein sylw. Does dim llawer o bobl yn darllen llawlyfrau microdon er mwyn cael eu diddanu, neu gylchgronau clecs i gasglu gwybodaeth (ddibynadwy). Efallai nad ydym ni erioed wedi clywed am genres llenyddol, ond fe wyddom ni mai'r allwedd i elwa o unrhyw destun y byddwn yn dod ar ei draws yw gwybod paham ei fod wedi'i ysgrifennu.

Mae hynny'n berthnasol i'r Ysgrythur ac yn enwedig i'r hyn y gellir ei ystyried yw ei chraidd, yr efengylau. Mae gen i hawl i ystyried efengyl Luc fel y mynnaf – dim ond i gael gwybod am gymeriad hanesyddol dyn o Galilea sydd wedi hen farw, er enghraift, neu at ddibenion diwylliannol: fe fyddwn yn colli ystyr y rhan fwyaf o'r celfyddydau gweledol, cerddoriaeth, llenyddiaeth y Gorllewin neu hyd yn oed iaith pob dydd, heb ryw lefel o adnabyddiaeth o'r Testament Newydd – meddyliwch am "yr Unfed Awr ar Ddeg", "taflu perlau o flaen y moch", "syrthio ar fin y ffordd".

Fodd bynnag, yn union fel chwilio am adloniant mewn llawlyfrau microdon, mae pori fel hyn, hwnt ac yma, yn rhwystri i allu gwneud synnwyr go iawn o'r efengylau ac nid yw'n syndod os yw'r ysgrifau rhyfedd hyn yn ein gadael yn ddryslyd a ffwndrus. Nid yw dim ond ein bod ni eisiau eu darllen yn ddigon. Mae'n rhaid i ni ddeall sut maen nhw, sut mae'r ysgrifau hyn eisiau i ni ddod atyn nhw. Rydym ni'n anghofio'n fod genre yr "efengyl" yn

# 1. SIGNIFICANT AND WANTED

W

hy do we read at all? This activity is such an essential and ubiquitous aspect of modern human identity that the question sounds redundant. Not everyone reads books or poetry, but we all pore over the news, inspect documents, decipher instructions, check

messages, scan feeds and posts. We read to acquire information, be entertained, and sometimes in search of inspiration. In the end the reason why we read varies according to the kind, or we might say the genre of the texts that attract our attention. Not many people read microwave manuals to be entertained, nor gossip magazines to gather (reliable) information. We might have never heard of literary genres, but we know that the key to benefiting from any text that comes our way is knowing what it has been written for.

This also applies to Scripture and especially to what can be considered its core, the gospels. I am entitled to approach Luke's gospel in the way I want – just to know about the historical character of a long dead Galilean man, for example, or for cultural reasons: I would miss the meaning of the greatest part of Western visual arts, music, literature, or even everyday language without some level of acquaintance with the New Testament – think just of "at the Eleventh Hour", "to cast pearls before swine", "to fall by the wayside".



I KNOW THAT I HAVE  
LET A GOSPEL FULFIL ITS  
INTENDED ROLE IF IT  
MAKES ME "WORK"



wreiddiol, yn unigryw, wedi'i dyfeisio gan Marc ac yna wedi'i mabwysiadu gan Mathew, Luc ac Ioan. Roedd angen arloesedd llenyddol i gynhyrchu testun a allai weithredu fel "efengyl", "euangelion" mewn Groeg, hynny yw "newyddion da". Ryw'n gwybod a wyf wedi darllen – erbyn hyn yn gyfarwydd – fy llawlyfr yn iawn os rwy'n gallu cael y microdon weithio. Fe wn fy mod wedi gadael i'r efengyl gyflawni'r hyn roedd hi i fod i'w wneud os yw hi'n gwneud i mi "weithio" fel petae, hynny yw os yw'n fy nhrawsnewid i – ac mae pob un o'r pedair efengyl yn gwneud hynny yn ei ffordd arbennig ei hunan.

I mi, mae'r ffordd mae hynny'n digwydd yn cael ei grynhai'n hynod gelfydd mewn brawddeg gan Rowan Williams:

**"MAE GRAS, I'R  
CRÉDINIWR CRISTNOGOL,  
YN DRAWSNEWIDIAD  
SY'N DIBYNNU I RADDAU  
HELAETH AR WYBOD EICH  
BOD YN CAEL EICH GWELD  
MEWN FFORDD BENODOL:  
YN CYFRIF, BOD EICH  
EISIAU."**

Dydyn ni ddim yn newid *i fod ein heisiau*, rydym ni'n newid yr eiliad pan fyddwn ni'n sylweddoli *bod ein heisiau ni*. Ac yn amlwg, mae pa mor ddwfn mae'r trawsnewid hyn yn mynd yn dibynnu i bwy rydym ni'n cyfrif arwyddocaol iddyn nhw, pwy sydd ein heisiau ni a pha mor ddwfn.

Does yna'r un ffordd well felly o ddatgelu calon efengyl Luc na thrwy brofi'r egwyddor hon yn un o'r adrannau nad yw i'w chael yn yr un efengyl arall, y bymthegfed pennod, ble rydym yn dysgu, waeth faint y byddwn yn ein gweld ni ein hunain (neu bobl eraill) yn golledig, nad yw Duw byth yn anobeithio yn ein cylch, ei fod yn mynd ymhell iawn, iawn i chwilio amdanom, ac, yn hanfodol, ei fod bob amser yn ein canfod yn y pen draw. Mae dilyniant y tair dameg yn drawiadol. Mae eu penawdau yn ein beiblau'n gamarweiniol (ac yn ddiog): "Y ddafad golledig", "Y darn arian colledig", "Y mab colledig". Un ffordd newydd a diddorol o daclo'r efengylau yw dileu'r teitlau hyn sydd

Just as looking for entertainment in microwave manuals, however, this approach precludes the possibility of making real sense of the gospels, and it is no surprise if these strange writings leave us puzzled and disoriented. Just us wanting to read them is not enough. We need to understand how they, how these writings want us to approach them. We often forget that the genre “gospel” is original, unique, invented by Mark and then adopted by Matthew, Luke, and John. A literary innovation was needed to produce a text that could function as “gospel”, in Greek “euangelion”, that is “good news”. I know I have read my – by now familiar – manual properly if I make the microwave work. I know that I have let a gospel fulfil its intended role if it makes me “work” so to speak, that is if it transforms me – and each of the four gospels does this in its own distinctive way.

I find that the way this happens is exquisitely captured in a sentence by Rowan Williams:

**“GRACE, FOR THE CHRISTIAN BELIEVER, IS A TRANSFORMATION THAT DEPENDS IN LARGE PART ON KNOWING YOURSELF TO BE SEEN IN A CERTAIN WAY: AS SIGNIFICANT, AS WANTED.”**

We do not change *to be wanted*, we change the moment we realize *we are wanted*. And obviously how deeply this transformation goes depends on who we are significant for, who we are wanted by, and how deeply.

No better way then to unveil the heart of Luke’s gospel than testing this principle in one of the sections that are found only in him, the fifteenth chapter, where we learn that however much we might see ourselves (or other people) as lost, God never gives up on us, will go to an unimaginable length to look for us, and, crucially, always finds us in the end. The succession of the three parables is striking. Their headings in our bibles are misleading (and lazy): “The lost sheep”, “The lost coin”, “The lost son”. A refreshing way of tackling the gospels is erasing these titles in our bibles and being playful: why not “A sheep on

yn ein beiblau a dechrau chwarae: pam nad "Dafad ar ei ysgwydd", "Sgubo'r golau i mewn", "Modrwy orfodol" – neu "Y ddafad aflonydd", "Y darn arian sbonciog", "Y mab (meibion) twp". Mae damhegion fel posau: oni bai ein bod ni'n defnyddio ein dychymyg maen nhw'n dal wedi'u cloi.

Awgrym ymarferol felly. Ffurfiwch dair colofn, ail ysgrifennwch y damhegion wrth ochr ei gilydd gan nodi'r hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol. Bob tro, nid yw ymostwng i'r golled yn cael ei ystyried. Yn rhyfeddol, does yr un awgrym lleiaf o rwystredigaeth yn unrhyw un o'r storïau – dim ond penderfyniad tawel, hyderus, trylwyr ar ran Duw i wneud beth bynnag sydd ei angen. Gellid dehongli'r damhegion hyn, mewn un ffordd, fel hanesion o golled, ond o safbwyt y ddafad, y darn arian a'r mab yn unig. Nid oedd y bugail, y wraig a'r tad erioed wedi ystyried eu bod ar goll – dim ond bod angen o fwy o ymroddiad, gofal, sylw, perswâd ac amynedd. Daw teitlau eraill i'r cof: "Y bugail gofalgar", "Y forwyn ymroddgar", "Y tad cyfareddol" – y prif gymeriadau yw nid y rhai sydd ar goll, ond y rhai sy'n gwybod sut i fod yn amyneddgar. Y newyddion da yw y gallwn i fod yn golledig i bawb, hyd yn oed ystyried fy hunan yn golledig, ond i'r Tad, fel mae Luc yn ei weld, mae fy mywyd afriad, di-hid, newynu'n hunan niweidiol (15:14-18) yn ymddangos fel rhywbeth arall: cyfleoedd i'w cofleidio i ddangos mwy ar ei drugaredd – un o themâu trofwaol Luc a gyhoeddwyd o'r cychwyn cynaf yn llinellau cyntaf ei efengyl trwy enau Sachareias "Hyn yw trugaredd calon ein Duw – fe ddaw â'r wawr oddi uchod i'n plith" (1:78).

Mae'r efengylau wedi cyfareddu fel hyn ers canrifoedd. Sut bynnag y gallai rhywun feirniadu gwareiddiad y Gorllewin, o gymharu â'r creulondeb oedd mor nodweddiadol o wleidyddiaeth, cyfiawnder, perthnasau rhwng pobl, yn yr oesau a fu, does dim modd gwadu na fu gwelliant, a bod modd olrhain llawer ohono i'r efengyl. Ond mae'r cynnydd yn holol anfoddhaol oherwydd ei fod yn dal yn ei blentynnod. Mae'n cymryd amser i Dduw deithio yn ôl ac ymlaen a threiddio i bob cornel o'r tŷ, nid oherwydd ei fod yn ddiog nac yn aneffeithiol ond oherwydd ein bod ni'n fwriadol ddyfeisgar a di-droi'n-ôl yn ein penderfyniad i hawlio ein hannibyniaeth, i dorri ein cysylltiad ag ef, i gadw draw mor bell â phosibl oddi wrtho (15:13).

Ond, yn bwysig, mae'r efengylau'n newid y byd nid trwy hyrwyddo egwyddorion tosturiol yn unig, ond trwy ffurfio pobl dosturiol, trwy drawsnewid un person ar y tro. Efallai na fyddwn i hyd yn oed yn gwybod fy mod i ar goll tan i'r Tad fy nghafnoded. Ar y mwyaf, efallai y byddwn i wedi sylweddoli fy mod wedi gwario'r cyfan (15:14), fy mod wedi cael gwared ar bob ystyr o'm bywyd. Wedi'm lloethu gan deimlad o anobaith, efallai y byddwn hyd yn

his shoulder”, “Sweeping in the light”, “Ring mandatory” – or “The restless sheep”, “The bouncing coin”, “The dumb son(s)”. Parables are like riddles: unless we deploy our imagination they remain sealed.

A practical suggestion then. Draw three columns, rewrite the parables side by side, noticing parallels and differences. In each case resignation to the loss is out of the question. Strikingly, not the slightest hint of frustration can be detected in any of these story – only calm, confident, thorough determination on God’s part to do whatever it takes. There is a sense in which these parables can be interpreted as stories of loss only from the side of the sheep, the coin, and the son. These were never considered lost by the shepherd, the woman, and

---

## THE GOSPELS CHANGE THE WORLD BY SHAPING COMPASSIONATE PEOPLE, BY TRANSFORMING ONE PERSON AT THE TIME

---

the father – only in need of greater dedication, care, attention, persuasion, patience. Other titles come to mind: “The caring shepherd”, “The dedicated housekeeper”, “The disarming father” – the real protagonists are not those who are lost, but those who know how to keep their cool. The good news is that I can be lost for everyone, even consider myself lost, but for the Father, as Luke sees him, my squandering, reckless living, self-inflicted hunger (15:14-18) appear as something else: relished opportunities for a greater display of his compassion – one of Luke’s overarching themes announced right from the first lines of his gospel through Zechariah’s lips: “because of the tender mercy of our God, the sunrise shall visit us from on high” (1:78).

Gospels have worked this magic for centuries. However one might judge Western civilization, when compared to the brutality that characterised politics, justice, interpersonal relations in ancient times, the improvement is undeniable, and much of it can be traced back to the gospel. This progress is vastly unsatisfactory only

oed yn hiraethu am sicrwydd a synnwyr o bwrrpas y gall argyhoeddiaid crefyddol ei feithrin. Ond byddaf yn cael fy nghanfod mewn gwirionedd oherwydd bod Duw wedi bod yn chwilio amdanaf ar hyd yr adeg, wedi bod

---

## BYDDAF YN CAEL FY NGHANFOD OHERWYDD BOD DUW WEDI BOD YN CHWILIO AMDANAF AR HYD YR ADEG

---

